

Cynllun Busnes 2019/20



Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd, Syr John Holmes	4
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Bob Posner	6
Ein gweledigaeth a'n nodau.....	8
Ein cyflawniadau 2018/19.....	9
Ein hamgylchedd allanol.....	11
Gweithio ledled y DU	13
Ein cynllun ar gyfer 2019-20	14
Nod 1.....	14
Nod 2.....	18
Nod 3.....	21
Nod 4.....	23
Trefniadaeth ac adnoddau	25
Ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019/20.....	26

Rhagair gan y Cadeirydd, Syr John Holmes

Mae wedi dod yn beth cyffredin dweud mai'r unig beth y gallwn ei ragweld gydag unrhyw hyder ar gyfer y cyfnod sydd i ddod yw y bydd yr ansicrwydd yn parhau. Yn sicr, bydd angen i ni fod yn barod ar gyfer unrhyw beth a phob peth a all ddigwydd yn etholiadol. Ar yr un pryd, mae yna rai pethau y mae eglurder yn eu cylch: mae angen i ni fod yn siŵr bod y Comisiwn yn gwbl weithredol gyda busnes fel arfer, a'i fod yn bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau o ran polisi hefyd.

Mae maint yr heriau allanol a wynebwn yn yr oes ddigidol hon, a'r angen felly i fireinio ein hadnoddau rheoleiddio, gwneud mwy o waith ym maes polisi ac ymchwil, a gwella ein seilwaith TG sylfaenol, wedi ein hargyhoeddi bod angen mwy o adnoddau arnom ar gyfer 2019/20. Bydd y buddsoddiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn dal i fod yn gwbl addas at y diben ac yn gallu ymdopi â phopeth y bydd angen i ni ei wynebu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac yn y dyfodol.

Mae pleidiau ac ymgyrchwyr yn troi'n fwyfwy at y cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd yr etholwyr. Gall ymgyrchu digidol gyflawni pethau da mewn democratiaeth gref, ac mae'n helpu ymgyrchwyr i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ni sicrhau y gall cyfraith etholiadol reoleiddio'r maes hwn yn effeithiol. Rydym wedi llunio pecyn o argymhellion i wella gallu pleidleiswyr i wybod pwy sy'n eu targedu, a'n galluogi i weld yn gliriach yr hyn y mae pleidiau ac ymgyrchwyr eraill yn ei wneud mewn gwirionedd. Rydym yn annog y llywodraeth i weithredu ar yr argymhellion hyn yn gyflym drwy ddeddfwriaeth briodol. Nid oes unrhyw amser i'w gollu er mwyn osgoi sefyllfa lle mae pleidleiswyr yn dechrau drwgdybio'r hyn y maent yn ei glywed ac sy'n cael ei ddweud wrthynt yn ystod ymgyrchoedd. Yn yr un modd, bydd angen i lwyfannau technoleg gadw at eu haddewidion i fod yn fwy tryloyw o ran hysbysebion gwleidyddol a'r defnydd o hunaniaethau a chyfeiriadau ffug. O'n rhan ni, byddwn yn parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid sydd hefyd yn ystyried rheoleiddio gweithgarwch yn y maes hwn.

Mae'r Comisiwn wedi treulio llawer o amser ac wedi gwneud llawer o ymdrech yn ystod y ddwy flynedd diwethaf i ymchwilio i roddion a gwariant mewn etholiadau blaenorol a refferendwm yr UE a, lle y bo'n briodol, roi cosbau yn eu cylch. Bu hynny'n angenrheidiol ac yn bwysig o ran dangos y gall pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn cadw at y rheolau a osodir gan Seneddau ddisgwyl dioddef y canlyniadau. Fodd bynnag, nid ydym am gael ein hystyried yn rheoleiddiwr gelyniaethus. Yn hytrach, rydym yn anelu at fod yn sefydliad sy'n helpu pawb i ddeall y rheolau a chydymffurfio â nhw. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r prif bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill yn y flwyddyn sydd i ddod nid yn unig i fireinio ein canllawiau ymhellach, ond hefyd i'w helpu i gryfhau eu gweithdrefnau cydymffurfio. Ar yr un pryd, byddwn yn ymchwilio i dechnoleg newydd er mwyn gwneud y broses o gyflwyno adroddiadau ariannol yn haws ac yn fwy cyson.

Rydym hefyd am sicrhau bod cyfraith etholiadol yn barod ar gyfer y profion o'n blaen ac yn addas at yr 21ain ganrif. Rydym yn parhau i annog llywodraethau'r DU i weithredu'r

argymhellion a wnaed yn 2016 gan Comisiynau'r Gyfraith yn llawn. Os nad oes modd gwneud y newidiadau hyn eleni, bydd angen mapio'r ffordd ymlaen yn glir er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phleidiau, llywodraethau'r DU a seneddau er mwyn cyflawni hyn.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ymchwilio a myfyrio ar y ffordd y gellir moderneiddio a gwella'r system etholiadol er mwyn rhoi mwy o hyder i etholwyr ynglŷn â'i diogelwch a'i heffeithiolrwydd, a dechrau bodloni disgwyliadau'r cenedlaethau iau o ran newid technolegol. Go brin y bydd modd newid i unrhyw fath o bleidleisio digidol mewn etholiadau i'r DU gyfan yn y dyfodol agos, ond gallwn helpu i baratoi ar gyfer beth bynnag a all ddod yn bosibl yn y dyfodol drwy foderneiddio rhai o hanfodion ein system, gan ddechrau gyda chofrestru etholwyr. Mae hyn eisoes ar droed, ar ôl cyflwyno cofrestru unigol a cheisiadau ar-lein, drwy ddiwygio proses anhylaw a chostus bresennol y canfasiad. Gobeithiwn y bydd llywodraethau yn barod maes o law i ddatblygu hyn ymhellach. Gellir gwneud defnydd gwell o gronfeydd data eraill a thrafodion cyhoeddus eraill er mwyn gwella cywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau. Gallwn hefyd symud tuag at gyfuno'r cofrestrau a gwneud y broses gofrestru yn fwy awtomataidd ac yn awtomatig yn y pen draw. Mae hwn yn un o feysydd allweddol ein gwaith polisi.

Eleni, mae'n debygol y caiff deddfwriaeth ei chyhoeddi yng Nghymru a'r Alban ar newidiadau i etholiadau datganoledig. Bydd y ddeddfwriaeth hon hefyd yn amlinellu darpariaethau a fydd yn gwneud y Comisiwn yn uniongyrchol atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban ar gyfer yr agweddau hynny ar ein gwaith sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig. Rydym yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfleoedd i arloesi a gynigir gan hyn. Edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith gyda'r deddfwriaethau a'r llywodraethau datganoledig er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad neu'n gweinyddu etholiadau yng Nghymru a'r Alban.

Yn gyffredinol, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod y Comisiwn yn barod iawn ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd lu a fydd yn codi y flwyddyn nesaf, diolch i waith caled ac arbenigedd ein staff. Mae ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol hefyd yn seiliedig ar bartneriaethau cadarn a chydweithio â llywodraethau a seneddau'r DU, awdurdodau lleol, y gymuned etholiadol a chyd-reoleiddwyr. Edrychaf ymlaen at y cyfleoedd i wella profiad a hyder y pleidleiswyr ledled y DU.

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr, Bob Posner

Rydym yn gweithredu un o'r systemau cyllid gwleidyddol mwyaf tryloyw yn y byd ac mae lefel boddhad y cyhoedd gyda'r ffordd y cynhelir etholiadau yn uchel. Ond ni ddylem fod yn hunanfodlon. Wrth i ni symud i 2019/20 byddwn yn parhau i ddadlau dros y newidiadau deddfwriaethol a amlinellwyd uchod gan y Cadeirydd, ond byddwn hefyd yn cyflawni ein hymrwymiad i atgyfnerthu a moderneiddio'r ffordd rydym yn rheoleiddio. Byddwn yn sicrhau mwy o dryloywder ac yn buddsoddi mwy mewn adnoddau digidol er budd pleidleiswyr, pleidiau, ymgyrchwyr a'r gymuned etholiadol.

Rydym yn diweddarau ein system cyllid gwleidyddol ar-lein. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws i bleidiau ac ymgyrchwyr wneud ceisiadau i gofrestru, ac yn rhoi'r data y gallwn eu defnyddio i gadarnhau cydymffurfiaeth. Bydd y newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n haws i ni gyhoeddi'r data hyn yn allanol, gan ryddhau ein tîm fel y gallant ganolbwyntio ar weithgarwch rheoleiddio cadarnhaol. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr chwilio am ddata, sy'n golygu y gall y cyfryngau a'r cyhoedd graffu ar wybodaeth yn haws. Byddwn hefyd yn parhau i foderneiddio ein canllawiau. Rydym yn newid canllawiau i fformat cwbl ddigidol, fel y byddant yn fwy hygyrch a chwiliadwy, gan ei gwneud hi'n haws i ymgyrchwyr a phleidiau ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Bydd y ddau welliant hyn ar gael drwy wefan gorfforaethol newydd sbon a fydd yn diwallu anghenion ei hamrywiaeth eang o ddefnyddwyr yn well.

Ac rydym yn cynnig hyd yn oed mwy o eglurder ynglŷn â'r rheolau sy'n llywodraethu gwariant etholiadol i ymgeiswyr a phleidiau. Gwneir hyn drwy ein Codau Ymarfer newydd y bydd Senedd y DU yn gallu eu cymeradwyo, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgyrchu digidol. Rydym wedi ymgynghori ag ASau, pleidiau ac eraill ar y Codau hyn. Mae hon ond yn un enghraifft o weithio mewn partneriaeth ac yn sicrhau gwell rheoleiddio, i bleidiau ac ymgeiswyr sy'n defnyddio'r system ac i bleidleiswyr. Yn olaf, ar y cyd â'r heddlu a Gwasanaeth Eryl y Goron, byddwn yn meithrin y gallu i ymgymryd â'n herlyniadau, gan sicrhau bod y Comisiwn yn gweithredu'n unol â rheoleiddwyr eraill a rhyddhau adnoddau'r heddlu ac erlynwyr. Bydd y newid hwn yn ein galluogi i gymell eraill i ryddhau gwybodaeth gan roi mwy o dryloywder i bleidleiswyr. Rydym yn ymgynghori â phleidiau gwleidyddol ac eraill a byddwn yn rhannu'r canlyniadau ar ddechrau 2020.

Yn ogystal â'r ffocws ar y ffordd rydym yn rheoleiddio, yn 2019/20 bydd y Comisiwn yn ymateb i nifer o flaenoriaethau'r Llywodraeth. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod etholiadau lleol Mai 2019 yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth, a chefnogi'r swyddogion canlyniadau hynny sy'n treialu system prawf adnabod pleidleiswyr. Unwaith y bydd yr etholiadau wedi'u cynnal, bydd y Comisiwn yn ymgymryd â'i ddyletswydd statudol i werthuso llwyddiant y cynlluniau peilot a phenderfynu beth maent yn ei ddweud wrthym am liniaru risgiau o dwyll gan bleidleiswyr.

Mae'r etholiadau lleol yn cynnig cyfleoedd newydd i ni a Swyddogion Cofrestru Etholiadol awdurdodau lleol annog a galluogi pleidleiswyr i gofrestru. Rydym eisoes wedi dechrau

ein hymgyrch i gofrestru pleidleiswyr ac yn rhagweld y bydd pobl ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cofrestru i bleidleisio. Yn fwy cyffredinol, byddwn yn meddwl am ffyrdd o ailwampio'r broses gofrestru. Rydym am adeiladu ar y newid i gofrestru etholiadol unigol a wnaeth hefyd ei gwneud yn bosibl i bleidleiswyr gofrestru i bleidleisio ar-lein. Roedd y newidiadau hyn yn gam cyntaf pwysig yn y broses o foderneiddio'r system, ond rydym yn gwybod y gellir gwneud rhagor.

Y llynedd, croesawyd cynigion gan lywodraethau'r DU a fyddai'n galluogi gweinyddwyr etholiadol ym Mhrydain Fawr i ddefnyddio data er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y canfasiad blynyddol. Eleni, bydd angen i ni sicrhau bod y cynlluniau manwl yn ymarferol ac y gellir eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Byddwn hefyd yn ystyried y posibiladau o arloesi pellach, megis paru data a chofrestru awtomatig er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd a gwella cywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau.

Byddwn yn gwella ac yn moderneiddio ein dull gweithredu ac yn helpu eraill i wneud yr un fath. Bydd y gwaith hwn yn gofyn am fuddsoddiad yn y seilwaith technolegol y bydd ei angen ar ein staff i wneud eu gwaith. Bydd hefyd yn gofyn am gydweithio, ac edrychaf ymlaen at atgyfnerthu'r cydberthnasau â llawer o sefydliadau ac unigolion sydd gennym eisoes. Gwyddom fod llawer o'r heriau y byddwn yn ceisio ymateb iddynt eleni yn effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill yn ogystal â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw ac yn eu rheoleiddio. Y ffordd orau o sicrhau newid yw drwy weithio gyda'n gilydd.

Ein gweledigaeth a'n nodau

Ein gweledigaeth yw bod yn sefydliad sector cyhoeddus o'r radd flaenaf - yn arloesol, yn sicrhau gwerth gwyb ac yn cyflawni'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr a deddfwyr.

Bwriadwn gyflawni'r weledigaeth hon drwy raglen waith pum mlynedd â phedwar nod:

1. galluogi'r gwaith o gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch
2. sicrhau system y gellir ymddiried fwyfwy ynddi a system gynyddol dryloyw o reoleiddio ym maes cyllid gwleidyddol, goruchwyllo cydymffurfiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n cael eu rheoleiddio a mynd ar drywydd achosion o dorri rheolau
3. bod yn ganolfan arbenigedd annibynnol uchel ei pharch, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella tryloywder, tegwch ac effeithlonrwydd ein system ddemocrataidd ymhellach, a helpu i'w haddasu i'r oes fodern, ddigidol
4. rhoi gwerth am arian, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n harbenigedd er mwyn darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr

Ein cyflawniadau 2018/19

Mae'r cynllun busnes hwn yn ymwneud ag ail flwyddyn ein rhaglen waith pum mlynedd. Bydd ein hadroddiad blynyddol yn rhoi gwybodaeth fanylach am berfformiad ar gyfer 2018/19 ond mae'r cyflawniadau hyn yn dangos rhywfaint o'r cynnydd a wnaed gennym tuag at gyflawni ein nodau corfforaethol.

Nod 1: Galluogi etholiadau rhydd a theg

- Wedi cefnogi'r broses o gynnal etholiadau llywodraeth leol Mai 2018 ac etholiadau maerol lleol yn Lloegr. Gwnaeth ein hymgyrch lwyddiannus i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd helpu i ychwanegu 270,000 o bleidleiswyr at y cofrestrau etholwyr, a pharhau i gael pobl i gofrestru i bleidleisio cyn yr etholiadau.
- Wedi cefnogi'r broses o ymdrin â'r ddeiseb adalw gyntaf gan Brif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon.
- Wedi gweithio gyda Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon a Swyddfa Gogledd Iwerddon i lansio cofrestru etholiadol ar-lein a fydd yn ei gwneud hi'n symlach ac yn fwy hygyrch i gofrestru i bleidleisio.
- Wedi cyhoeddi Cod Ymarfer diwygiedig i Arsylwyr Etholiadol ac wedi moderneiddio'r broses gwneud cais i fod yn arsylwr, ar ôl ymgynghoriad.
- Wedi datblygu'r gyfres gyntaf o'n canllawiau modern, mwy dealladwy ar gyfer ymgynghori â detholiad o ddefnyddwyr.

Nod 2: Sicrhau system reoleiddio dryloyw yr ymddiriedir ynddi'n fwyfwy

- Mwy o hyder ymhlith y cyhoedd o ran cyllid gwleidyddol drwy ddangos y byddwn yn ymyrryd i atal achosion o beidio â chydymffurfio a chymryd camau cadarn os na chydymffurfir.
- Wedi gorfodi'r cyfreithiau cyllid gwleidyddol yn y DU mewn ffordd gadarn ac effeithiol, drwy ymchwilio i droseddau posibl a chyhoeddi canlyniad pob ymchwiliad, gan gynnwys mewn materion proffil uchel lle mae budd cyhoeddus sylweddol.
- Wedi ymestyn tryloywder cyllid gwleidyddol yn y DU drwy gyhoeddi gwybodaeth am roddion a benthyciadau bob chwarter ar gyfer derbynwyr Gogledd Iwerddon, yn sgil Gorchymyn Tryloywder Rhoddion a Benthyciadau 2018 yn ogystal â chyhoeddi ffurflenni ariannol blynyddol a chwarterol gan bob plaid arall.
- Wedi gwella cofrestrau cyhoeddus pleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon drwy ddiweddarau, ychwanegu a dileu cofnodion yn ôl yr angen.
- Wedi ymyrryd yn llwyddiannus yn ystyriaeth y Goruchaf Lys o'r ffordd y dehonglir treuliau etholiadol, un enghraifft o'n safbwynt mwy rhagweithiol ac awdurdodol fel rheoleiddiwr.

Nod 3: Gweithio fel canolfan arbenigedd annibynnol ac uchel ei pharch

- Wedi cyhoeddi ein gwerthusiad o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr Mai 2018. Derbyniodd Llywodraeth y DU ein prif argymhelliad y dylid annog ystod ehangach o gynghorau lleol i gynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2019 ac mae wedi gweithredu arno.
- Wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar ymgyrchu digidol sy'n nodi pecyn o argymhellion i wella tryloywder i bleidleiswyr, yn ogystal â'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eu hunain. Mae ein hargymhellion wedi cael eu trafod yn eang yn neddfwrfeydd y DU a thu hwnt, ac wedi ennyn cefnogaeth gan amrywiaeth eang o gyrff seneddol, cyd-roeiddwyr, melinau trafod a sylwebyddion.

Nod 4: Rhoi gwerth am arian

- Wedi adnewyddu ein brand corfforaethol er mwyn creu cysondeb ac adnabyddiaeth o frand mewn amrywiaeth eang o'n gwaith, yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol.
- Wedi darparu gwasanaeth cwsmeriaid o lefel ragorol, gan gyflawni ein holl fetrigau perfformiad, a sicrhau bod y Comisiwn yn ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth mewn ffordd agored, broffesiynol ac effeithlon.
- Wedi parhau i wneud cynnydd da ar drawsffurfio'r ffordd rydym yn gweithio yn y Comisiwn drwy gyflwyno WiFi ym mhob rhan o'n hystâd a chwblhau cynllun peilot oriau gwaith gyda chyflogeion y Comisiwn.
- Wedi gwella cydnerthedd y Comisiwn drwy uwchraddio ein safle Adfer ar ôl Trychineb.

Ein hamgylchedd allanol

Cynnal etholiadau yn effeithiol

Mae'n bwysig cydnabod bod cynnal etholiadau'n effeithiol yn parhau'n her, yn bennaf am fod angen moderneiddio cyfraith etholiadol o hyd, am fod cyllidebau awdurdodau lleol yn parhau i fod dan bwysau, ac am fod nifer gynyddol o weithwyr proffesiynol medrus yn gadael y proffesiwn gweinyddu etholiadol. Mae'r ffactorau hyn wedi cael eu dwysau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ddigwyddiadau etholiadol annisgwyl. Wrth i ni edrych ymlaen at yr etholiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2019, y cynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr a'r posibilrwydd o ddigwyddiadau annisgwyl, bydd angen i ni barhau i helpu'r gymuned etholiadol i ymateb.

Diwygio'r canfasiad

Bydd angen i'r newidiadau sylweddol arfaethedig i'r canfasiad blynyddol ym Mhrydain Fawr gael eu cyflwyno a'u rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddiannus. Gan weithio gyda llywodraethau'r DU a gweinyddwyr etholiadol, byddwn yn chwarae rôl allweddol, o ran sicrhau bod gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau y systemau, y sgiliau a'r canllawiau i gynnal ymarferion para data lleol a chenedlaethol. Byddwn hefyd am sicrhau bod deunydd cyfathrebu newydd y canfasiad a dyluniad ffurflenni wedi cael eu profi'n briodol gyda'r cyhoedd cyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu defnyddio.

Disgwyliadau pleidleiswyr mewn byd digidol

Mae llawer o bleidleiswyr yn disgwyl cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a gwybodaeth ar-lein. Mae gwneud gwasanaethau yn hawdd i'w defnyddio a chael gafael arnynt yn hollbwysig er mwyn annog pleidleisiwr i gymryd rhan. Mae angen i ni weithio gyda llywodraethau'r DU, Swyddogion Cofrestru ac arbenigwyr perthnasol i gyflwyno gwasanaeth digidol er mwyn ystyried sut y gall prosesau cofrestru a phleidleisio gael eu diweddarau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau pleidleiswyr, a hefyd sicrhau bod y system ddemocrataidd yn dal i fod yn ddiogel ac wedi'i hamddiffyn rhag twyll ar yr un pryd.

Mae angen hefyd i ni fynd i'r afael â'r defnydd o adnoddau ymgyrchu digidol, gan sicrhau na chaiff tryloywder nac atebolrwydd eu peryglu. Mae gan bleidleiswyr yr hawl i wybod pwy sy'n ceisio dylanwadu arnynt ar-lein. Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos gyda nifer o gyrff eraill ar y mater hwn, gan gynnwys rheoleiddwyr megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, grwpiau seneddol megis pwyllgorau dethol yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar newyddion ffug, a'r cwmnïau cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

Yr angen dybryd i foderneiddio cyfraith etholiadol

Y llynedd, mynegodd gwleidyddion, ymgyrchwyr ac academyddion eu cefnogaeth hwythau i alwad y Comisiwn am gyfraith etholiadol fwy modern. Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu etholiadau'r DU yn gyfredol o bell ffordd, ac mae'n gymhleth ac yn anghyson. Mae'n achos pryder bod y maes hwn wedi cael ei ddiystyru'n gyson ac rydym bellach yn annog llywodraethau'r DU i weithredu'r argymhellion a wnaed yn 2016 gan Gomisiynau'r Gyfraith. Byddai gweithredu'r argymhellion hyn, yn ogystal ag argymhellion eraill a wnaed gennym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn helpu i wella hyder yn niogelwch ac uniondeb etholiadau.

Tryloywder rhoddion i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon

Roedd yn dda gennym weld y gyfraith yn cael ei newid o'r diwedd yn 2018 i ganiatáu cyhoeddi gwybodaeth am roddion a benthyciadau y mae pleidiau gwleidyddol yn rhoi gwybod i ni amdanynt yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r newid hwn yn rhoi mwy o dryloywder i'r cyhoedd ynglŷn â sut y caiff pleidiau gwleidyddol eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn parhau i gael ei atal rhag datgelu unrhyw wybodaeth am roddion i bleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon a wnaed cyn 1 Gorffennaf 2017. Er tryloywder yn ystod cyfnod pwysig yn nemocratiaeth y DU, mae angen bod y ddeddfwriaeth hon yn cael ei hôl-ddyddio i fis Ionawr 2014. Byddai hyn yn helpu i graffu ar gyfnod o weithgarwch etholiadol dwys, a oedd yn cynnwys dau etholiad cyffredinol i Senedd y DU, dau etholiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd Ewrop ac etholiadau llywodraeth leol a refferendwm yr UE. Byddai tryloywder ynglŷn â'r digwyddiadau etholiadol pwysig hyn yn gwneud gwahaniaeth i ymddiriedaeth a hyder pleidleiswyr yn y broses ddemocrataidd.

Cynllunio wrth gefn

Wrth baratoi'r cynllun busnes hwn, rydym yn ystyriol o natur gyfnewidiol yr amgylchedd gwleidyddol. Rydym wedi sicrhau bod y cynllun hwn yn cynnig hyblygrwydd priodol er mwyn ein galluogi i ymateb i ddigwyddiadau allanol annisgwyl, gan gydnabod y gall fod angen i ni ail-flaenoriaethu ein gwaith yn unol â hynny. Mae gennym gynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i ddigwyddiadau etholiadol annisgwyl, ac rydym yn meddu ar yr arbenigedd, y profiad a'r hanes profedig o gynnal etholiadau yn effeithiol ar fyr rybudd, pe bai angen hynny. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis y rhai sydd â chyfrifoldebau diogelwch yn y DU, er mwyn gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig mewn perthynas â gwaith cynllunio wrth gefn ehangach.

Gweithio ledled y DU

Fel corff cyhoeddus sy'n gweithio ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU, rydym yn hyblyg ac yn rhagweithiol wrth addasu ein dull o gydweithredu i gydweddu â galwadau a gofynion llywodraethau, deddfwrfeydd ac etholwyr gwahanol. Rydym yn llwyr ymrwymedig i'r agenda o ddatganoli pellach ac yn edrych ymlaen at atebolrwydd cynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban ac at weithio gyda nhw a'u priod lywodraethau wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau etholiadol yn y dyfodol.

Yn sgil Deddf yr Alban 2016, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am etholiadau Senedd yr Alban i Senedd yr Alban ym mis Mai 2017. Roedd eisoes yn gyfrifol am etholiadau llywodraeth leol. Mae Deddf Cymru 2017 hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldebau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei briod etholiadau.

Mae'r newidiadau hyn yn ddatblygiad pellach ar y ffyrdd rydym yn cyflwyno adroddiadau ac yn cael ein dwyn i gyfrif am ein gwaith yng Nghymru a'r Alban. Byddwn yn parhau i weithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban i sefydlu'r atebolrwydd hwn o ran y gyllideb a'r ddarpariaeth weithredol. Rydym yn croesawu'r ddeddfwriaeth ddrafft a fydd yn cael eu cyflwyno yn y ddwy ddeddfwrfafa yn 2019 gan y bydd yn cynyddu ein hatebolrwydd a'n tryloywder yn y gwledydd datganoledig hynny.

Nid yw cyfraith etholiadol yng Ngogledd Iwerddon wedi'i datganoli ac erys yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Rydym yn parhau i weithio gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon a Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau safonau uchel ym maes gweinyddu etholiadol.

Ein cynllun ar gyfer 2019-20

Mae'r adrannau dilynol yn amlinellu'r gwaith y byddwn yn ei wneud yn 2019-20 er mwyn parhau â'r gwaith o gyflawni ein nodau strategol, a'r ffordd y byddwn yn mesur ein llwyddiant o ran hynny.

Nod 1

Galluogi'r gwaith o gynnal etholiadau a refferenda rhydd a theg, gan ganolbwyntio ar anghenion yr etholwyr a mynd i'r afael ag amgylchedd sy'n newid o hyd er mwyn sicrhau bod pob pleidlais yn ddiogel ac yn hygyrch.

Cynnal digwyddiadau etholiadol yn effeithiol

Yn 2019-20 byddwn yn:

- Cefnogi'r digwyddiadau etholiadol arfaethedig ym mis Mai 2019, sef etholiadau llywodraeth leol, etholiadau maerol lleol ac etholiadau awdurdodau cyfunol mewn rhannau o Loegr, ac etholiadau llywodraeth leol Gogledd Iwerddon, a nodi unrhyw wersi y dylid eu dysgu ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.
- Paratoi ar gyfer digwyddiadau etholiadol arfaethedig ym Mai 2020, sef etholiadau Maer Llundain a Chynulliad Llundain, etholiadau llywodraeth leol, etholiadau maerol lleol ac etholiadau maerol ac awdurdodau cyfunol mewn rhannau o Loegr ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr.
- Gan ddefnyddio ein safonau perfformiad, ymgysylltu ag awdurdodau lleol a Swyddogion Canlyniadau i gefnogi a herio'r ffordd y maent yn cynnal digwyddiadau etholiadol.
- Datblygu a chyflwyno canllawiau, adnoddau a chymorth i ymgeiswyr, asiantiaid a Swyddogion Canlyniadau ar gyfer digwyddiadau etholiadol ym mis Mai 2020.
- Buddsoddi yn y gwaith o gyflwyno rhagor o'n canllawiau modern, digidol a mwy hygyrch.
- Gweithio gyda gweinyddwyr etholiadol, ymgyrchwyr a llywodraethau i nodi cyfleoedd i wella hygyrchedd etholiadau, fel y bydd pawb yn cael yr un mynediad at y wybodaeth a'r prosesau y bydd eu hangen arnynt i bleidleisio mewn etholiadau a refferenda.

Sicrhau bod cynifer o etholwyr â phosibl yn cofrestru

Rydym am sicrhau bod cofrestrau etholiadol y DU yn cefnogi ac yn galluogi cyfranogiad effeithiol mewn etholiadau a refferenda gan bawb, ac yn helpu i sicrhau bod cynifer o etholwyr â phosibl yn cofrestru. Yn 2019-20 byddwn yn:

- Datblygu'r ffordd y byddwn yn cefnogi ac yn herio Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddarparu gwasanaethau cofrestru etholiadol effeithiol, cytuno arni a'i rhoi ar waith.
- Datblygu a chyflwyno'r ffrydiau gwaith sydd eu hangen i gefnogi'r broses o weithredu proses canfasiad blynyddol diwygiedig. Mae hyn yn cynnwys dosbarthu canllawiau ar gofrestru a deunyddiau i bleidleiswyr sydd wedi'u hailddatblygu.
- Cynnal ymgyrchoedd cofrestru pleidleiswyr effeithiol ledled y DU sy'n rhoi gwerth am arian cyn etholiadau Mai 2020.
- Datblygu a chyhoeddi safonau perfformiad newydd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned etholiadol, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn eu cefnogi ac yn eu herio i gynnal cofrestrau etholiadol cywir a chyflawn.
- Craffu ar unrhyw gynigion a gyflwynir gan lywodraethau'r DU ar gyfer newidiadau i'r etholfraint ar gyfer etholiadau neu refferenda, gan gynnwys unrhyw newidiadau ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ymarferol i ddinasyddion a Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
- Cyflwyno canllawiau mewn fformat modern, mwy hygyrch sy'n cefnogi'r broses o gofrestru'n effeithiol.
- Craffu ar gynigion gan Swyddfa Gogledd Iwerddon a Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon i gynnal canfasiad cofrestru etholiadol yn ystod hydref 2020, er mwyn sicrhau y bydd hyn yn helpu i wella cyflawnder a chywirdeb y cofrestrau etholiadol.

Mynd i'r afael â thwyll etholiadol

Dylai pleidleiswyr fod yn hyderus bod twyll yn cael ei atal a'i ganfod. Er mwyn cefnogi hyn, yn 2019-20 byddwn yn:

- Gweithio gyda phartneriaid i gynnal ymgyrch arall, o dan ein baner 'Dy bleidlais di a neb arall', i dynnu sylw pleidleiswyr at risgiau twyll etholiadol.
- Craffu ar unrhyw gynigion a gyflwynir gan lywodraethau'r DU ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth ynglŷn â thwyll etholiadol, gan gynnwys unrhyw newidiadau i droseddau a chosbau a gynigir yn sgil ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddiogelu'r ddadl, er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur ac yn ymarferol.
- Cyhoeddi data ar achosion honedig o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod 2019, fel y caiff ymatebion o ran polisi a phlisma ar gyfer etholiadau yn y dyfodol eu llywio gan sylfaen dystiolaeth.
- Gweithio'n agos gyda'r Heddlu ac awdurdodau lleol i roi hyfforddiant ac adolygu cynlluniau uniondeb er mwyn helpu i atal twyll etholiadol.

Moderneiddio cofrestru etholiadol

Yn 2019-20 byddwn yn:

- Cyhoeddi ein barn ar gynigion gan y llywodraeth i ddiwygio'r canfasiad cofrestru etholiadol blynyddol, er mwyn llywio a chefnogi seneddau'r DU wrth iddynt ystyried deddfwriaeth cyn canfasiad 2020.
- Cefnogi'r gwaith o roi'r diwygiadau i'r canfasiad ar waith a pharhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn paratoi canllawiau ac yn cefnogi gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cabinet, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Aseswyr yr Alban.

Nod 1 perfformiad

Mesurau perfformiad cynllun corfforaethol a chynllun busnes

Rydym yn cyhoeddi 100% o'r canllawiau ar amser heb wallau sylweddol	Rydym yn rhoi cyngor cywir i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i o fewn tri diwrnod gwaith i dderbyn y cais	Mae ychwanegiadau at gofrestrau etholiadol yn ystod ein hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn cyflawni ein targedau neu'n rhagori arnynt
Rydym yn adolygu 100% o gynlluniau uniondeb gan awdurdodau lleol lle y nodwyd bod mwy o risg o dwyll	Rydym yn cyhoeddi 100% o'n hadroddiadau o fewn terfynau amser arfaethedig	Rydym yn rhoi sylwadau ar 100% o'r cynigion polisi a deddfwriaethol perthnasol

Dangosyddion effaith

Ni chaiff unrhyw etholwyr eu gwasanaethu gan Swyddogion Canlyniadau na Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n methu â chyrraedd ein safonau perfformiad	Gwella hyder y cyhoedd yn eu dealltwriaeth o'r system cofrestru i bleidleisio a'u boddhad gyda'r system honno	Gwella hyder y cyhoedd yn y broses bleidleisio a'u boddhad gyda'r broses honno	Mae'r cofrestrau etholiadol yn y DU yn cynnal neu'n gwella lefelau cywirdeb a chyflawnrwydd cyfredol
Caiff pob pleidlais a fwir ei chynnwys yn y cyfrif ar gyfer etholiadau yn y DU (mae'r pleidleisiau a wrthodir mor agos at 0% â phosibl)	Ymatebir i 100% o'n hadroddiadau ar etholiadau a chofrestru gan y llywodraeth berthnasol	Mae pobl yn ymddiried yng nghanlyniadau etholiadau ac yn eu derbyn (mae nifer yr heriau cyfreithiol llwyddiannus mor agos at sero â phosibl)	Mae 100% o'r ddeddfwriaeth ofynnol ar gyfer digwyddiadau pleidleisio arfaethedig yn glir chwe mis cyn bod angen ei rhoi ar waith heb unrhyw wallau wedi'u nodi

Cerrig milltir allweddol

Cyhoeddi ein barn ar gynigion i ddiwygio'r canfasiad blynyddol ym Mhrydain Fawr.	Mehefin 2019
Cyhoeddi'r safonau perfformiad newydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol	Mawrth 2020
Cyhoeddi data ar achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod 2019	Mawrth 2020

Nod 2

Sicrhau system y gellir ymddiried fwyfwy ynnddi a system gynyddol dryloyw o reoleiddio ym maes cyllid gwleidyddol, goruchwyllo cydymffurfiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n cael eu rheoleiddio a mynd ar drywydd achosion o dorri rheolau

Sicrhau tryloywder

Dylai pleidleiswyr fod yn gallu gweld a deall sut y caiff pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill eu hariannu, a'r hyn y maent yn ei wario ar ymgyrchu. Er mwyn cefnogi hyn yn 2019-20 byddwn yn:

- Cyhoeddi gwybodaeth amserol am gyllid gwleidyddol, gan gynnwys cyfrifon blynyddol gan bleidiau cofrestredig, gwybodaeth am roddion a benthyciadau a manylion gwariant ymgyrchu y mae'n ofynnol i bleidiau ac eraill roi gwybod i ni amdanynt.
- Cofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill yn unol â'r gyfraith a chyhoeddi cronfa ddata ar-lein.
- Cynnal y gofrestr hon, gan gynnwys adolygu pob disgrifiad er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu adnabod y blaid y mae ymgeiswyr wedi'u cofrestru ar ei chyfer.
- Buddsoddi mewn porth ar-lein newydd ar gyfer cofrestru pleidiau a chyllid pleidiau gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r safle, a lleihau trafodion ar bapur.
- Craffu ar unrhyw gynigion i gael gwell tryloywder ar gyfer ymgyrchoedd etholiadau a referenda digidol, er mwyn sicrhau y byddant yn cynnig buddiannau i bleidleiswyr ac yn ymarferol i ymgyrchwyr, ac yn gwneud cynigion priodol ein hunain. Gall y rhain gynnwys archifau hysbysebion gwleidyddol gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a deddfwriaeth a gyflwynir gan lywodraethau'r DU i'w gwneud yn ofynnol i roi argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu digidol.
- Parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i roi pwerau cyfreithiol i ni gyhoeddi gwybodaeth am roddion a benthyciadau a dderbynnir gan ymgyrchwyr cofrestredig yng Ngogledd Iwerddon, yn mynd yn ôl i Ionawr 2014, er mwyn sicrhau'r tryloywder a'r hyder mwyaf i bleidleiswyr yno.

Rheoleiddio da

Yn 2019-20 byddwn yn:

- Rhoi cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel er mwyn helpu pleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr i gydymffurfio â'r rheolau.
- Cymryd camau a, lle y bo'n briodol, roi cosbau pan dorrir y rheolau, yn unol â'n Pholisi Gorfodi. Lle y bo angen, byddwn yn amddiffyn heriau cyfreithiol i'n penderfyniadau gorfodi. Byddwn hefyd yn parhau i wella ein dull o fonitro

cydymffurfiaeth a'n monitro amser real lle y gallwn ymyrryd cyn gynted ag y nodir bod problem.

- Datblygu, mabwysiadu a dechrau defnyddio polisi erlyn, a fydd yn diffinio ein gallu i gynnal ymchwiliad troseddol a manylu ar y pwerau i erlyn y gallem eu harfer.
- Datblygu codau ymarfer newydd i bleidiau ac ymgyrchwyr ar gyfer Etholiad Cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig i'w gynnal yn 2022 ac ar gyfer Cymru a'r Alban erbyn yr etholiadau arfaethedig yn 2021.
- Parhau i lunio'r ddadl dros newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn atgyfnerthu ein pwerau i ymchwilio a chosbi, gan gynnwys cynyddu'r ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi am dorri'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda o'r lefel bresennol o £20,000, er mwyn sicrhau bod y rhain yn fesurau ataliol effeithiol a all sicrhau cydymffurfiaeth a gwella hyder y cyhoedd.
- Gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i adolygu ei Reolau Sefydlog a sicrhau bod ganddo gynllun cadarn i ddatblygu rheolau a chanllawiau newydd ar gyfer etholiadau yn 2021 a rhoi terfyn ar adrodd deuil.

Nod 2 perfformiad

Mesurau perfformiad cynllun corfforaethol a chynllun busnes

Rydym yn cyhoeddi ffurflenni ariannol rheolaidd gan bleidiau ac ymgyrchwyr, gan gynnwys datganiadau cyfrifon, o fewn 30 diwrnod gwaith er mwyn cydymffurfio â therfynau amser statudol. (Targed 100%)	Rydym yn gwirio o leiaf 25% o'r holl ffurflenni ariannol am gywirdeb a chydymffurfiaeth bob blwyddyn	Rydym yn cyhoeddi 100% o'r canllawiau ar amser heb wallau sylweddol	Rydym yn rhoi cyngor cywir o fewn pump i ugain diwrnod i dderbyn y cais, yn dibynnu ar gymhlethdod y cyngor (Targed 90%)
Rydym yn hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu ceisiadau cofrestru o fewn 30 diwrnod i gais cyflawn 75% o'r amser	Rydym yn cynnal ymchwiliadau amserol a chymesur y caiff 90% ohonynt eu cwblhau o fewn 180 diwrnod	Rydym yn anfon 90% o'r hysbysiadau terfynol yn nodi ein sancsiynau o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau. Rydym yn cyhoeddi canlyniad pob un o'n hymchwiliadau	Rydym yn gwneud argymhellion rheoleiddio amserol sy'n adlewyrchu'r egwyddorion sy'n llywio ein dull o ymdrin â fframwaith rheoleiddio effeithiol

Dangosyddion effaith

Gwella hyder y cyhoedd bod gwariant a chyllid pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn etholiadau'r DU yn agored ac yn dryloyw	Gwella hyder y cyhoedd y caiff camau eu cymryd gan yr awdurdodau os canfyddir bod ymgyrchydd yn torri'r rheolau ynghylch cyllid ymgyrchu	Mae pob rhodd a benthyciad ar gyfer pleidiau mawr yn gywir ac yn cydymffurfio â'r rheolau ac yn cael eu cyflwyno ar amser	Mae'r holl ffurflenni gwariant ar ymgyrchu yn gywir ac yn cydymffurfio â'r rheolau, a chânt eu cyflwyno ar amser
--	--	---	--

Cerrig milltir allweddol

Cwblhau ymgynghoriad ar Bolisi Erlyniadau	Ebrill 2019
Mabwysiadu Polisi Erlyniadau	Mehefin 2019
Lansio CPRh Ar-lein	Ionawr 2020
Cwblhau adolygiad o ddisgrifiadau cofrestredig	Mawrth 2020
Llunio Rheolau Sefydlog Newydd i Gymru yn derfynol	Ionawr 2020
Cyflwyno Codau Ymarfer i weinidogion perthnasol	
<ul style="list-style-type: none">Etholiad Cyffredinol Senedd y DUCymru a'r Alban	Mai 2019 Chwe 2020

Nod 3

Bod yn ganolfan arbenigedd annibynnol uchel ei pharch, gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i wella tryloywder, tegwch ac effeithlonrwydd ein system ddemocrataidd ymhellach, a helpu i'w haddasu at yr oes fodern, ddigidol

Yn 2019-20 byddwn yn:

In 2019-20, we will:

- Gwerthuso cynlluniau peilot newydd Llywodraeth y DU ar gyfer prawf adnabod pleidleiswyr mewn gorsaf bleidleisio yn etholiadau lleol Mai 2019, er mwyn nodi'r dystiolaeth y bydd ei hangen i ddatblygu model hygyrch a chymesur ar gyfer etholiadau yn y dyfodol ym Mhrydain Fawr.
- Cyflwyno adroddiad manwl ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholiadol yn y DU.
- Cwblhau ein prosiect astudiaeth ddichonoldeb ar opsiynau ar gyfer moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol, gan nodi pa opsiynau sydd fwyaf tebygol o fod yn fuddiol i ddinasyddion a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac yn gwella cywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholiadol.
- Dechrau gwaith cwmpasu ar brosiect i ddeall anghenion a disgwyliadau pleidleiswyr ac ystyried opsiynau ar gyfer gwella hygyrchedd prosesau pleidleisio yn y DU fel y bydd pawb yn cael yr un mynediad at y wybodaeth a'r prosesau y bydd eu hangen arnynt i bleidleisio mewn etholiadau a refferenda.
- Rhoi cyngor arbenigol annibynnol i Lywodraethau a Seneddau Cymru a'r Alban ar newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi sy'n codi o'r priod agendau diwygio etholiadol, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu buddiannau pleidleiswyr a'u bod yn ymarferol.
- Parhau i annog llywodraethau'r DU i nodi cyfleoedd i symleiddio, moderneiddio a chydgrynhai cyfraith etholiadol, a gweithio gyda nhw i wneud hynny, gan gynnwys gweithredu argymhellion Comisiynau'r Gyfraith yn 2016, er mwyn lleihau'r risg o ddryswch a gwallau ym maes gweinyddu a rheoleiddio etholiadol a gwella hyder yn niogelwch ac uniondeb etholiadau yn y dyfodol.

Nod 3 perfformiad

Mesurau perfformiad cynllun corfforaethol a chynllun busnes

Cynnal prosiect i ddeall tirwedd gwaith ymgysylltu democrataidd cyhoeddus yn y DU

Cynnal prosiect i ddatblygu ac ymchwilio i ymarferoldeb cynigion i foderneiddio cofrestru etholiadol a diwallu anghenion a bodloni disgwyliadau pleidleiswyr yn ein cymdeithas ddigidol

Cyhoeddi ein gwerthusiad a'n hymateb i gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr 2019

Gweithio o blaid yr argymhellion ynghylch diwygio cyfraith etholiadol gan Gomisiynau Cyfraith Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Dangosyddion effaith

Cyfeirir at ein tystiolaeth a'n barn arbenigol mewn dadl gyhoeddus ar ein system a'n prosesau democrataidd, ac mae cynigion y llywodraeth yn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n hargymhellion ar gyfer newid

Cerrig milltir allweddol

Cyhoeddi ein gwerthusiad o gynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr 2019

Awst 2019

Cwblhau ein prosiect astudiaeth ddichonoldeb ar opsiynau ar gyfer moderneiddio'r broses gofrestru etholiadol

Gorffennaf 2019

Cwblhau cam cwmpasu prosiect i ddeall anghenion a disgwyliadau pleidleiswyr

Rhagfyr 2019

Nod 4

Rhoi gwerth ardderchog am arian, gan gyflawni mwy gyda llai a chael pethau'n iawn y tro cyntaf; gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau a'n harbenigedd er mwyn darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i'r hyn sydd bwysicaf i bleidleiswyr a deddfwyr

Cefnogi'r sefydliad

Yr hyn sy'n allweddol i'n llwyddiant dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt yw sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar waith gennym i gefnogi'r broses o gyflawni'r cynllun uchelgeisiol hwn. Mae hyn yn cynnwys darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, cyllid, cynllunio, cymorth a TGCh o ansawdd gyson uchel. Yn 2019-20 byddwn yn:

- Lansio gwefan gorfforaethol newydd sy'n gwella ein gwasanaethau digidol yn sylweddol, yn diwallu anghenion defnyddwyr yn fwy effeithiol, ac yn darparu gwybodaeth mewn ffyrdd hawdd eu defnyddio a chwbl hygyrch.
- Datblygu a gweithredu strategaeth pobl newydd, er mwyn cefnogi'r defnydd gorau o'n hadnoddau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cysoni â gwerthoedd y Comisiwn ac â'r Cynllun Corfforaethol ymhellach, yn ogystal â gwaith i hyrwyddo diwylliant sy'n cynnig y ffordd orau i dimau staff allu cyflawni eu rolau'n effeithiol
- Gweithio'n agos gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban i reoli a datblygu model gweithredol sy'n ein galluogi i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban a bod yn atebol iddynt, a thrwy hynny wella ein hatebolrwydd a'n tryloywder yn y meysydd hynny.
- Rhoi adnoddau newydd ar waith i sicrhau effeithlonrwydd a gwell tryloywder ar gyfer swyddogaethau corfforaethol allweddol megis caffael, perfformiad a llywodraethu.
- Edrych o'r newydd ar ein gweithdrefnau rheoli prosiect a'u hadnewyddu er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi proses o gyflwyno newid yn effeithiol.
- Cynllunio a chyflawni amcanion prosiect Ffyrdd o Weithio, gan gynnwys newidiadau i'n strategaeth ar gyfer swyddfeydd, datblygu ein harferion gwaith er mwyn adlewyrchu'r disgwyliadau ar gyflogwr modern a sicrhau y gall cyfleusterau TGCh craidd gefnogi'r newidiadau hyn.
- Sicrhau cadernid ein seilwaith digidol a TG rhag bygythiadau seiber drwy raglen o brofi, uwchraddio a meincnodi yn erbyn safonau priodol.
- Uwchraddio a gwella ein systemau TG sy'n cefnogi ein prosesau rheoleiddio a gweinyddu etholiadol.
- Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu systemau a thrawsnewid digidol yn cael ei gefnogi gan arfer gorau a chydymffurfiaeth reoliadol.

Nod 4 perfformiad

Mesurau perfformiad cynllun corfforaethol a chynllun busnes

Dysgu gwersi ymarferol o arferion cyfredol gweithio gartref a gweithio o bell a chynllunio swyddfeydd y dyfodol yn unol â hynny.

Nodi opsiynau, costau a buddiannau e-gaffael a gweithredu system newydd yn unol â hynny

Bodddhad rhanddeiliaid a staff gydag adnoddau TG

Cynnal sgoriau ymgysylltu â staff uchel yn yr arolwg staff blynyddol a sicrhau bod dangosyddion megis trosiant staff ar lefelau priodol

Monitro amrywiannau sylweddol ym mhob cyllideb a lle y bo'n briodol leihau'r amrywiannau hyn yn ystod pum mlynedd y cynllun.

Cerrig milltir allweddol

Lansio'r wefan gorfforaethol

Mehefin 2019

Lansio'r Cynllun Cyhoeddi Diwygiedig

Mehefin 2019

Diweddarau Strategaeth ar gyfer Swyddfeydd a'r Strategaeth ar gyfer Technoleg

Gorffennaf 2019

Lansio llwyfan e-gaffael

Rhagfyr 2019

Newid y weithdrefn rheoli prosiect

Mawrth 2020

Lansio Strategaeth Pobl

Mawrth 2020

Systemau llywodraethu a chynllunio yn fyw

Mawrth 2020

Trefniadaeth ac adnoddau

Pobl fedrus, hyfforddedig yw'r gofyniad adnodd mwyaf sylweddol i'r Comisiwn. Mae angen hefyd i ni fuddsoddi mewn cyfleusterau, systemau ac adnoddau allanol fel y gall ein staff weithio hyd eithaf eu galluoedd a chanolbwyntio ar gyflawni cynlluniau'r Comisiwn.

Y gwariant cyfalaf arfaethedig yn 2019-20 yw £990,000. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad sylweddol ym mhorth ar-lein y Comisiwn ar gyfer Cyllid Gwleidyddol a Rheoleiddio, a ddefnyddir gan randdeiliaid i gadw eu manylion sefydliadol a chyflwyno eu ffurflenni ariannol i'r Comisiwn. Mae'r cynllun cyfalaf hefyd yn cynnwys buddsoddiadau i ddiweddarau gwefannau'r Comisiwn a disodli systemau busnes a seilwaith sy'n mynd yn hen.

Yn ogystal â chostau gweithredol y Comisiwn, rydym yn parhau i weinyddu'r cynllun grant datblygu polisi sy'n darparu ar gyfer talu grantiau gwerth £2,000,000 i bleidiau gwleidyddol cymwys er mwyn helpu i ddatblygu polisiau i'w cynnwys yn eu manifestos.

Yn gyffredinol, mae ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20 wedi cynyddu £1.772m o gymharu â 2018-19, yn bennaf ar gyfer buddsoddi mewn nifer fach o staff rheng flaen ychwanegol a chefnogi seilwaith, yn enwedig er mwyn helpu'r Comisiwn i ymateb i heriau newydd yr oes ddigidol. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys £487k sy'n cynrychioli cyfran y Comisiwn o gynnydd gorfodol mewn cyfraniadau pensiwn ym mhob rhan o'r llywodraeth. Mae'n cynnwys hefyd £110k i gefnogi mentrau'r llywodraeth ledled y DU, gan gynnwys diwygio'r canfasiad a chynlluniau peilot adnabod pleidleiswyr yn Lloegr ac agendau diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

Mae'r buddsoddiad rydym yn ei wneud er mwyn helpu i gyflawni ein cynllun corfforaethol yn cynnwys £130k o fuddsoddiad cyfalaf wedi'i ohirio o 2018-19 a £127k a ddygwyd ymlaen o 2020-21. Bydd y rhain yn sicrhau gwelliannau sylweddol yn ein seilwaith TG a'n gallu i weithio'n ddigidol. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r system rheoleiddio ar-lein newydd arfaethedig ar gyfer cyllid gwleidyddol, gan wneud prosesau cyllid gwleidyddol yn haws i bleidiau ac ymgyrchwyr a gwneud ein gwaith yn fwy tryloyw drwy adnodd chwilio cyhoeddus newydd ar gyfer data cyllid gwleidyddol ar ein gwefan newydd. Byddwn hefyd yn cyflwyno canllawiau mwy modern ar-lein, gan helpu pleidiau, ymgyrchwyr a gweinyddwyr etholiadol, gwella cydymffurfiaeth a'i gwneud hi'n haws i'w chynnal a defnyddio llai o adnoddau.

Ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019/20

Crynoir cynlluniau gwariant y Comisiwn ar gyfer 2019/20 yn y tabl isod.

Cyflawni Busnes

	Adnoddau £m	Incwm £m	Cyfalaf Cyfanswm £m
Digwyddiadau etholiadol:			
Cyflog y digwyddiadau	0.593		0.593
Etholiadau - Mai 2019 (Lloegr a Gogledd Iwerddon)	0.679		0.679
Etholiadau - Mai 2020	0.116		0.116
Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	0.764		0.764
Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, Mehefin 2017	0.003		0.003
Etholiad Senedd Ewrop - wrth gefn	0.686		0.686
Prosiectau digwyddiadau	0.742	-0.085	0.657
Cyflawni Busnes Arall			
Cyflog	8.447		8.447
Rhent ac Ardrethi	1.089		1.089
TGCh a symiau nad ydynt yn ymwneud â chyflog	2.141	-0.016	2.125
Dibrisiant	0.494		0.494
Darpariaethau	0.115		0.115
Cyfanswm cyflawni busnes	15.869	-0.101	15.768

Costau gweithredu

	Adnoddau £m	Incwm £m	Cyfalaf £m	Cyfanswm £m
Prosiectau gwella	0.166		0.990	1.155
Prosiectau datblygu	0.020			0.020

Costau eraill

	Adnoddau £m	Incwm £m	Cyfalaf £m	Cyfanswm £m
Cyfraniadau pensiwn gorfodol ychwanegol				0.487
Grantiau Datblygu Polisi				2.000

Cyfanswm y cynlluniau gwario 2019-20

	Adnoddau £m	Incwm £m	Cyfalaf £m	Cyfanswm £m
Cyfanswm y cynlluniau gwario	16.054	-0.101	0.990	19.430

Cost fesul gweithiwr amser llawn

Y staff a ariennir ar gyfer 2019-20 yw 155.91 CALI (2018/19: 147.47 CALI)

Y Comisiwn Etholiadol

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei hygrededd.

Y Comisiwn Etholiadol 2019